

Cynnwys

Cyflwyniad	04
Ymgynghori	07
Adran 1	
• Aseiad o Berfformiad yn erbyn ein Blaenoriaethau Gwella	07
• Rheoli Risg	09
• Crynodeb o'r Data Perfformiad	09
• Cytundeb Canlyniadau	12
Adran 2	
• Adrodd yn fanwl ynghylch Blaenoriaeth Gwella	14
Adran 3	
• Cydraddoldeb	43
• Iaith Gymraeg	43
• Datblygu Cynaliadwy	44
• Gweithgarwch Partneriaethau a Chydweithio	44
• Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu	45
• Iechyd a Diogelwch Corfforaethol	47
Atodiadau	
Atodiad A - Cofrestr Risg Cynllun Gwella 2015/16	47
Atodiad B - Tabl data Mesurau Cynllun Gwella	47
Atodiad C - Tabl Data Dangosyddion Cenedlaethol	47
Atodiad D - Geirfa	47
Sut i gysylltu â ni i gael rhagor o wybodaeth ac i roi adborth	48
Rhestr o Dablau a Siartiau	
Tabl 1 - Blaenoriaethau Gwella 2015/16	04
Tabl 2 - Crynodeb o Berfformiad Blaenoriaeth 2015/16	06
Siart 1 - Perfformiad yn erbyn y targed ar gyfer ein mesurau Cynllun Gwella	09
Siart 2 - Tuedd perfformiad ar gyfer ein mesurau Cynllun Gwella	09
Siart 3 - Perfformiad yn erbyn y targed ar gyfer y mesurau statudol cenedlaethol	10
Siart 4 - Tuedd perfformiad ar gyfer y mesurau statudol cenedlaethol	10
Siart 5 - Nifer o fesurau cenedlaethol yn ôl safle'r chwarterl	11

Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn rhoi trosolwg o berfformiad y Cyngor yn ystod 2015/16 yn erbyn y blaenoriaethau yr ydym wedi eu gosod.

Mae'r adroddiad yn cwmpasu: -

- Cynnydd yn erbyn camau gweithredu a phrosiectau allweddol.
- Gwybodaeth perfformiad gwirioneddol a chymharol yn erbyn dangosyddion perfformiad a bennir yn lleol ac yn genedlaethol.
- Asesiad o ba mor dda y mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau a'r heriau strategol y mae'n eu hwynebu.
- Canlyniadau gwaith rheoleiddio allanol ac ymateb y Cyngor i wella llywodraethu a gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad.
- Asesiad o gyflawniad Cytundeb Canlyniadau y Cyngor gyda Llywodraeth Cymru (LIC).

Mae cyhoeddi'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn bodloni'r gofyniad statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol 'edrych yn ôl' ar ein Cynllun Gwella fel rhan o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009). Mae'r Cynllun Gwella, ein cyhoeddiad 'edrych ymlaen' yn bodloni'r gofyniad statudol arall. Wrth fodloni'r gofynion hyn dangosodd y Cyngor system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol.

Gosod Blaenoriaethau

Mae gan y Cyngor bwysau a blaenoriaethau sy'n cystadlu. Mae rhai blaenoriaethau yn 'hunanddewis' i gyflawni amcanion polisi cymdeithasol llywodraeth genedlaethol megis tai ac addysg. Mae eraill yn cael eu gosod yn fwy lleol.

Mae'r blaenoriaethau wedi eu ffurfio gan gynghorwyr ar draws ein Cabinet a'r swyddogaethau Trosolwg a Chraffu i sicrhau parhad dadansoddi ar gyfer perfformiad y gorffennol, presennol a'r dyfodol gall y Cyngor gael ei farnu yn eu herbyn. Mae perchnogaeth eang o'r blaenoriaethau o fewn y Cyngor a gyda'n partneriaid allweddol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Mae'r set hon o wyth blaenoriaeth wedi'i gefnogi gan gyfres o is-flaenoriaethau (a welir drosodd yn Nhabl 1) wedi helpu'r Cyngor i ganolbwyntio ar y pethau lle'r oedd angen sylw mwyaf yn ystod 2015/16. Mae'r blaenoriaethau sy'n weddill o flynyddoedd blaenorol wedi eu rheoli fel materion mwy arferol y tu allan i'r Cynllun.

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel corff democrataidd cynrychioliadol ac yn gosod ei flaenoriaethau ar sail y dystiolaeth mae wedi'i chasglu o sawl ffynhonnell. Mae ein haelodau etholedig mewn cysylltiad gyda barn leol drwy: -

- Cynrychiolaeth ddemocrataidd.
- Fforwmau Partneriaeth.
- Ymgynghori statudol.
- Ymgynghori â chymuned /defnyddwyr yn uniongyrchol

Tabl 1: Blaenoriaethau Gwella 2015/16

Blaenoriaeth	Is-Flaenoriaeth	Effaith a Gynlluniwyd
Tai	Tai Priodol a Fforddiadwy	Gwella dewis ac ansawdd tai lleol
	Cartrefi Modern, Effeithlon ac Wedi'u Haddasu	
Byw'n Dda	Byw'n Annibynnol	Galluogi mwy o bobl i fyw yn annibynnol ac yn dda gartref
	Gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig	
	Diogelu	Sicrhau bod oedolion, pobl ifanc a phlant yn cael eu diogelu
Economi a Menter	Twf y Sector Busnes	Creu swyddi a thyfu'r economi leol
	Adfywio Trefol a Gwledig	
Sgiliau a Dysgu	Addysg wedi'i Foderneiddio ac sy'n Perfformio'n dda	Gwella'r ddarpariaeth dysgu a chyfluoedd i gyflawni gwell canlyniadau i ddysgwyr
	Prentisiaethau a Hyfforddiant	
Cymunedau Diogel	Diogelwch Cymunedol	Cadw pobl a chymunedau'n ddiogel
Tlodi	Gwneud y mwyaf o incwm	Diogelu pobl rhag tlodi
	Tlodi Tanwydd	
Amgylchedd	Seilwaith Trafnidiaeth a Gwasanaethau	Helpu pobl i gael cyflogaeth, gwasanaethau lleol a chyfleusterau
	Datblygu Cynaliadwy a Rheoli Amgylcheddol	Datblygu a diogelu'r amgylchedd
Cyngor Modern ac Effeithlon	Datblygu Cymunedau	Cefnogi cymunedau i fod yn wydn
	Gwella Rheoli Adnoddau	Cefnogi gwasanaethau rheng flaen i berfformio'n dda wrth fod yn effeithlon

Sylwer: Mae cynllun lliwiau a ddefnyddir yn y tabl hwn yn cael ei ddefnyddio trwy gydol y ddogfen er mwyn hwyluso cydnabyddiaeth.

Ymgynghori

Mae ymgynghori ac ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n cymunedau yn digwydd mewn sawl ffordd wahanol: democratiaeth gynrychioladol drwy ein haelodau etholedig, ymgysylltu strwythurol e.e. drwy'r Fforwm Sirol (gyda chynghorau tref a chymuned), asesiadau anghenion ffurfiol drwy ein partneriaethau strategol, arolygon ac adborth, gweithdai a sioeau teithiol. Mae dulliau gwahanol yn cael eu defnyddio yn ôl yr amgylchiadau, y math o gynulleidfa, a'r cyrhaeddiad o sylw a geisir.

Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, cynhaliwyd ystod o ymgynghoriadau gyda budd-ddeiliaid yr effeithir arnynt. Dyma enghreifftiau o'r rhain:

- Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Cynigion Llyfrgelloedd (Ebrill 2015)
- Ymgynghoriad Symud Ymlaen Byw â Chymorth Mewnol (Mai - Mehefin 2015)
- Ymgynghoriad Tai Gofal Ychwanegol (Mai - Mehefin 2015)
- Ymgynghoriadau Moderneiddio Ysgolion (Hydref - Rhagfyr 2015)
- Llwybr Presennol Teithio Llesol (Rhagfyr 2015)
- Arolwg Ailgylchwch Fwy (Mawrth-Ebrill 2016)

Wedi'n hysgogi gan doriadau digynsail a ragwelwyd i gyllideb y Cyngor, gwnaethom gynnal cyfres o ymgynghoriadau cyhoeddus ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2015 i ganfod barn pobl leol am wasanaethau'r cyngor a sut y dylent gael eu diogelu. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei alw Dyma Ein Cyfle Ni. Yn yr ymarfer hwn, gwnaethom nodi difrifoldeb y sefyllfa a gofynnwyd i bobl a fyddent yn cefnogi rhai o'r dewisiadau byddai angen i'r Cyngor eu gwneud yn y dyfodol.

Adran 1

Asesiad o'n Perfformiad yn erbyn Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2015/16

Ar gyfer 2015/16 roedd gan y Cyngor 8 Blaenoriaeth Gwella fel y manylir yn ei Gynllun Gwella. Mae'r 7 blaenoriaeth gyntaf yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus ac mae'r flaenoriaeth olaf yn ymwneud â'r sefydliad corfforaethol fel 'busnes cymdeithasol'.

Mae Tabl 2 isod yn dangos crynodeb o "gynnydd" diwedd y flwyddyn a hyder mewn bodloni asesiad "canlyniad" ar gyfer pob blaenoriaeth yn seiliedig ar yr allwedd statws coch, oren, gwyrdd canlynol (COG).

Allwedd Statws CYNNYDD COG		Allwedd Statws CANLYNIAD COG	
C	Cynnydd Cyfyngedig - oedi yn y gweithgaredd a drefnwyd; ddim ar y trywydd iawn	C	Isel - lefel is o hyder wrth gyflawni'r canlyniad(au)
O	Cynnydd Boddhaol - rhywfaint o oedi mewn gweithgaredd a drefnwyd, ond ar y trywydd iawn ar y cyfan	O	Canolig - lefel ansicrwydd o hyder wrth gyflawni'r canlyniad(au)
G	Cynnydd Da - gweithgareddau'n cael eu cwblhau ar amser, ar y trywydd iawn	G	Uchel - yn gwbl hyderus wrth gyflawni'r canlyniad(au)

Tabl 2: Crynodeb o Berfformiad Blaenoriaeth 2015/16

Blaenoriaeth / Is-flaenoriaeth	Cynnydd	Canlyniad
Tai	O	O
• Tai Priodol a Fforddiadwy	O	O
• Cartrefi Modern, Effeithlon ac Wedi'u Haddasu	G	O
Byw'n Dda	G	G
• Byw'n Annibynnol	G	G
• Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Cymunedol Integredig	G	G
• Diogelu	G	G
Economi a Menter	G	G
• Twf ac Adfywio Sector Busnes	G	G
• Adfywio Trefol a Gwledig	G	G
Sgiliau a Dysgu	G	G
• Addysg wedi'i Foderneiddio ac sy'n Perfformio'n dda	G	G
• prentisiaethau a Hyfforddiant	G	G
Cymunedau Diogel	G	G
• Diogelwch Cymunedol	G	G

Blaenoriaeth / Is-flaenoriaeth	Cynnydd	Canlyniad
Tlodi	G	G
• Gwneud y mwyaf o incwm	G	G
• Tlodi Tanwydd	G	G
Amgylchedd	G	G
• Seilwaith Trafnidiaeth a Gwasanaethau	G	G
• Datblygu Cynaliadwy a Rheoli Amgylcheddol	G	G
Cyngor Modern ac Effeithlon	O	O
• Datblygu Cymunedau	G	O
• Gwella Rheoli Adnoddau	O	O

Mae Adran 2 yr adroddiad hwn (tudalen 14) yn rhoi asesiad manylach ar gyfer y “cynnydd” a hyder yn y “canlyniad” yn erbyn pob un o’r 16 is-flaenoriaeth sy’n cefnogi’r 8 Blaenoriaeth Gwella. Mae pob asesiad yn cynnwys dolen i’r adroddiad llawn ar gyfer yr is-flaenoriaeth fel a gyflwynwyd i’r pwyllgor craffu perthnasol ar ddiwedd y flwyddyn.

Crynodeb o’r Aseiad Cynnydd

O fewn pob un o’r is-flaenoriaethau roedd nifer o weithgareddau lefel uchel. Darperir crynodeb o’n cynnydd cyffredinol fel a ganlyn: -

CYNNYDD

- Cynnydd da (gwyrdd) mewn 44 (75%) o weithgareddau.
- Cynnydd boddhaol (oren) mewn 15 (25%) o’n gweithgareddau.

CANLYNIAD

- Mae gennym lefel uchel (gwyrdd) o hyder wrth i ni gyflawni 46 (79%) o’n canlyniadau a gynlluniwyd.
- Mae gennym lefel ganolig (oren) o hyder wrth i ni gyflawni 10 (17%) o’n canlyniadau a gynlluniwyd.
- Mae gennym lefel isel (coch) o hyder wrth i ni gyflawni 2 (3%) o’n canlyniadau a gynlluniwyd.
- Nid oedd gan 1 (1%) unrhyw darged wedi’i osod.

Rheoli Risg

Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun Gwella ar gyfer 2015/16 ym mis Mehefin 2015. Roedd hyn yn darparu cyfle i'r Cyngor i ail-alinio ei risgiau strategol i'r blaenoriaethau ac is-flaenoriaethau yn y Cynllun.

Mae dadansoddiad o lefelau risg diwedd blwyddyn ar gyfer y 45 o risgiau strategol a nodwyd yn y Cynllun Gwella fel a ganlyn: -

- Mae 4 (9%) yn isel (gwyrdd)
- Mae 30 (67%) yn ganolig (oren)
- Mae 3 (6%) yn uchel (coch)
- Mae 8 (18%) yn fân (melyn)

Cynhaliwyd dadansoddiad tueddiadau hefyd, gan gymharu lefelau risg ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r rhai ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd y dadansoddiad yn dangos: -

- Roedd 13 (29%) o risgiau wedi gostwng
- Roedd 31 (69%) o risgiau wedi aros yr un fath
- Roedd 1 (2%) o risgiau wedi cynyddu

Mae tabl cryno o'r risgiau ar ddiwedd blwyddyn 2015/16 yn **Atodiad A**.

Crynodeb o'r Data Perfformiad

Crynodeb o Berfformiad Cenedlaethol (Sefyllfa Cymru Gyfan)


Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru a'r Uned Ddata Llywodraeth Leol ddata perfformiad 2015/16 ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru (Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus) ym mis Medi 2016. Roedd hyn yn cyd-fynd gyda throsolwg o dueddiadau cenedlaethol fel mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r **Bwletin Perfformiad Llywodraeth Leol** yn ddogfen ategol i'r adroddiad hwn.

Gwella Ein Perfformiad


Mae perfformiad ar gyfer 2015/16 yn erbyn ein Mesurau Cynllun Gwella wedi'i grynhoi mewn tabl dangosyddion perfformiad alldro (Siart 1). Mae Sir y Fflint yn gallu dangos gwelliant ar 2014/15 gyda 68 dangosydd yn cyrraedd y targed neu well yn erbyn y flwyddyn flaenorol o 75. Gwnaeth targedau a gollwyd o fewn ffin dderbyniol ostwng o 33 yn 2014/15 i 19 y llynedd.

Dadansoddiad o lefelau diwedd blwyddyn o berfformiad a nodwyd:-

Siart 1: Perfformiad yn erbyn y targed ar gyfer ein mesurau Cynllun Gwella




Siart 2: Tuedd perfformiad ar gyfer ein mesurau Cynllun Gwella




Siart 3: Perfformiad yn erbyn y targed ar gyfer y mesurau statudol cenedlaethol


Mae hwn yn ddangosydd perfformiad alldro sengl sy'n dangos perfformiad Sir y Fflint yn y mesurau statudol cenedlaethol; Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (NSIs) a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs).



Siart 4: Tuedd perfformiad ar gyfer y mesurau statudol cenedlaethol

Dadansoddiad o nifer y dangosyddion yr oedd perfformiad wedi gwella, wedi'i gynnal neu wedi dirywio ar eu cyfer. Gwnaeth 3 dangosydd perfformiad gynnal yr un lefel o berfformiad i gyd ar y lefel orau posibl o 100%.



Siart 5: Nifer o fesurau cenedlaethol yn ôl safle'r chwarter

Mae perfformiad chwarter Sir y Fflint yn dangos gwelliant parhaus dros y blynyddoedd blaenorol..


Cytundeb Canlyniadau

Mae'n ofynnol i bob Cyngor ymrwymo i Gytundeb Canlyniadau Olynydd gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer y tair blynedd diwethaf 2013/14 i 2015/16. Mae'r cytundebau newydd hyn yn cymell y broses o gyflawni blaenoriaethau lleol.

2015/16 oedd blwyddyn olaf y rhaglen Cytundeb Canlyniadau.

Gwnaeth y Grant Cytundeb Canlyniadau ddenu grant arbennig o tua £1.4 miliwn y flwyddyn dros gyfnod o dair blynedd. Ym mlwyddyn olaf y Cytundeb Canlyniadau derbyniodd y Cyngor eto ei grant llawn ar gyfer cyflawniad. Mae taliadau grant llawn wedi eu derbyn gan y Cyngor ym mhob un o'r 3 blynedd yn seiliedig ar ei lefel perfformiad

Statws COG ar gyfer yr Hunanasesiad o'r Cytundeb Canlyniadau



Aflwyddiannus:-

- o Ni chyrhaeddwyd dim o'r targedau a'r cerrig milltir (ac ni ellir egluro'r methiant gan y tri amgylchiad a nodir isod*); neu
- o Dengys y pwysau clir o dystiolaeth fod tystiolaeth o fethiant yn llawer mwy na thystiolaeth o lwyddiant.



Rhannol lwyddiannus:-

- o Lle nad yw barnau cwbl lwyddiannus nac aflwyddiannus yn gymwys, caiff y canlyniad ei drin fel rhannol lwyddiannus.



Hollol lwyddiannus:-

- o Wedi cyrraedd neu ragori ar bob un o'r targedau a cherrig milltir; neu
- o Gellir egluro'r diffyg gan unrhyw un o'r tri amgylchiad a nodir isod *; neu
- o Dengys y pwysau clir o dystiolaeth fod tystiolaeth o lwyddiant yn llawer mwy na thystiolaeth o fethiant.

* Mae tri amgylchiad cyffredinol lle y gall perfformiad fethu â chyrraedd y lefelau a nodir yn y Cytundeb Canlyniadau heb gael unrhyw effaith ar gynnydd cyffredinol y canlyniad hwnnw, sef:

- **Diffyg Ymylol:** mae'r diffyg o ran perfformiad yn rhy fach i fod wedi'i ragweld yn rhesymol wrth osod y targed.
- **Amgylchiadau eithriadol:** mae'r diffyg o ran perfformiad yn gyfan gwbl neu'n bennaf o ganlyniad i ddylanwadau allanol na ellid eu rhagweld ac nad oedd modd eu rheoli.
- **Methiant Partner:** mae'r diffyg yn adlewyrchu tanberfformiad partner cydweithredol, a chymerodd yr awdurdod lleol gamau i ddeall a lliniaru hynny, lle bo'n bosibl.

Adran 2 - Adroddiadau Manwl ar Flaenoriaethau ar gyfer Gwella

Tai ↘ Cynnydd | Canlyniad
Boddhaol Boddhaol

Tai Priodol a Fforddiadwy

Cynnydd : **Boddhaol** Canlyniad : **Boddhaol**

1 Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn ceisio cyflawni'r dyletswyddau newydd ar atal digartrefedd o dan Ddeddf Tai 2014 drwy'r canlynol:

- Cydweithio'n agosach â'r sector rhent preifat.
- Nifer y teuluoedd lle mae digartrefedd wedi'i atal drwy ddefnyddio'r sector rhent preifat.
- Nifer y teuluoedd lle mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol lawn sydd wedi mynd i lety rhent preifat.
- Cynnal canran yr holl deuluoedd digartref dichonol a ataliwyd rhag mynd yn ddigartref am o leiaf 6 mis.



Beth wnaethom ni

✓ Drwy gydol 2015-16 ataliwyd 98% o deuluoedd digartref dichonol rhag mynd yn ddigartref am o leiaf 6 mis. Comisiynwyd nifer o dai ar les i ddarparu llety dros dro i bobl ddigartref, cafodd 148 o deuluoedd gymorth i sicrhau llety yn y sector rhent preifat. Darparwyd bondiau blaendal heb arian parod i'r holl gwsmeriaid a oedd yn mynd i eiddo rhent preifat a chafodd rhai cwsmeriaid rent ymlaen llaw drwy gynllun gwario i arbed i'w galluogi i symud i dai a oedd ar gael.

! Er bod y cynnydd yn dda, nid oedd modd atal rhai achosion drwy ddefnyddio'r sector rhent preifat am nad oedd tai addas a fforddiadwy ar gael. Mae galw mawr o hyd am wasanaethau atal digartrefedd ac mae datblygu opsiynau llety addas a fforddiadwy yn y sir yn flaenoriaeth o hyd er mwyn cwrdd â'r angen.

2 Ysgogi twf tai fforddiadwy drwy'r canlynol:

- Cynyddu nifer y tai Cyngor a thai fforddiadwy newydd drwy'r Rhaglen Adfywio Tai Strategol (SHARP).
- Cynyddu nifer y tai newydd a roddir o dan Gytundebau Adran 106.
- Mabwysiadu Manyleb Dylunio Tai Safonol ar gyfer Sir y Fflint ar gyfer tai newydd a godir o dan arweiniad y Cyngor.

Beth wnaethom ni

✓ Rhoddwyd caniatâd cynllunio i godi 12 o dai Cyngor newydd yng Nghei Connah, a rhoddwyd caniatâd ar gyfer datblygiad y Walks yn y Fflint, gan amserlennu'r gwaith i ddechrau ym mis Gorffennaf 2016. Bydd y rhaglen SHARP hefyd yn ceisio darparu 500 o dai fforddiadwy newydd rhwng 2015 a 2019. Trosglwyddwyd 2 eiddo i gartrefi NEW gan godi'r cyfanswm i 6 o dan y cytundeb Adran 106 ar gyfer 2015/16.

.....

3 Cyflawni'r dyletswyddau ar gyfer cymuned o Deithwyr o dan Ddeddf Tai 2014 drwy'r canlynol:

- Cwblhau asesiad llety Sipsiwn/Teithwyr.

Beth wnaethom ni

✓ Cwblhawyd yr asesiad llety Sipsiwn/Teithwyr erbyn y dyddiad targed ar 31/03/2016.

.....

4 Datblygu darpariaeth gofal ychwanegol er mwyn darparu unedau yn y Fflint a Threffynnon drwy'r canlynol:

- Sicrhau caniatâd cynllunio llawn ar gyfer y ddau safle.
- Cytuno ar y model dylunio a darparu ar gyfer y ddau gynllun
- Cychwyn adeiladu'r ddau gynllun.

Beth wnaethom ni

✓ Sicrhawyd yr holl ganiatâd ar gyfer cynllunio a rheoliadau adeiladu, ac mae'r gwaith wedi dechrau. Mae'r rhaglen adeiladu 18 mis i gael ei chwblhau erbyn Ebrill 2017.



Ar y dechrau, gwrthodwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer cynllun Gofal Ychwanegol Treffynnon yn Ebrill 2015 o ganlyniad i bryderon ynghylch y safle a ffafriwyd a'r effaith ar y dref o gollu manau parcio. Mae safleoedd a dyluniadau eraill yn cael eu hailystyried gyda phartner y cynllun Wales and West ar gyfer ardal Treffynnon.

Cartrefi Modern, Effeithlon ac Addas

Cynnydd : **Uchel**Canlyniad : **Boddhaol**

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn darparu cymorth ariannol i atgyweirio, gwella ac addasu cartrefi sector preifat drwy'r canlynol:

- Atgyweirio a gwella 40 o anheddau sector preifat drwy raglen gyfalaf y Cyngor a Chynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi Llywodraeth Cymru.
- Cwblhau addasiadau'n fwy prydlon, yn enwedig y rheini a ddarperir drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

Beth wnaethom ni

✓ Cafwyd cynnydd yn y nifer sydd wedi mynegi diddordeb mewn cymorth ariannol yr un pryd â lansio Cynllun Benthyciadau Gwella Cartrefi Llywodraeth Cymru (LIC). Cymeradwywyd 20 o fenthyciadau ac mae 16 pellach yn cael eu prosesu. Fodd bynnag, ni ddechreuwyd ar y gwaith adeiladu eto. Yn ogystal â hyn, mae 10 cais am Fenthyciadau Gwella Cartrefi LIC yn cael eu hasesu. Dechreuwyd recriwtio er mwyn cyflenwi'r angen am gapasiti o ganlyniad i'r cynnydd yn adnoddau LIC ar gyfer Benthyciadau Gwella Cartrefi, Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi, a gwaith ynni Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.



Er na chyrhaeddwyd y targed ar gyfer darparu'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl i Blant yn brydlon, cafwyd gostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol o 619 o ddiwrnodau i 455. Mae sefyllfa'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl i Oedolion yn debyg gan fod y cyfnod wedi gostwng o'i gymharu â 2014-15.

2

Lleihau nifer y cartrefi sy'n wag am gyfnod hir drwy'r canlynol:

- Ailddefnyddio cartrefi gwag ar gyfer preswyllo drwy Gynllun Troi Tai'n Gartrefi LIC.

Beth wnaethom ni

✓ Cafwyd perfformiad da gan fod 34 eiddo a fu'n wag am gyfnod hir wedi'u hailddefnyddio o'i gymharu â tharged o 30. Mae hyn yn ganlyniad i'r arian ychwanegol a ddarparwyd drwy gynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid LIC ar gyfer y fenter Byw Uwchben Siopau, a'r galw mawr am fenthyciadau Troi Tai'n Gartrefi.

* Caiff Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl eu mesur yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Mae Cyngor Sir y Fflint yn rheoli addasiadau ar gyfer cyfnod cyfan o anghenion plentyn, a all ymestyn dros nifer o flynyddoedd.

3

Cyflawni'r strategaeth rheoli asedau chwe blynedd i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn holl Dai Cyngor Sir y Fflint drwy'r canlynol:

- Cwblhau cynlluniau gwaith SATC gwerth £21 miliwn, yn unol â'r Strategaeth Rheoli Asedau Tai

Beth wnaethom ni



Mae'r strategaeth chwe blynedd wedi'i datblygu a'i chymeradwyo. Mae timau gwaith cyfalaf wedi cwblhau'r holl brif ymarferiadau tendro ac rydym yn awr yn cwblhau prosiectau ar y safleoedd. Caffaelwyd contractwyr ychwanegol i helpu i gyflawni ffrydiau gwaith mawr er mwyn cwblhau gwaith a bodloni cwsmeriaid ar safleoedd. Cafwyd cynnydd rhagorol drwy gydol y flwyddyn a dim ond un elfen yn y ffrwd gwaith allanol sydd wedi gorgyffwrdd â chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol newydd. Caffaelwyd mwyafrif y ffrydiau gwaith mawr ar contractau treigl dwy, tair a phedair blynedd ac felly bydd y gwaith yn parhau'n ddi-dor yn 2016-17. Cafwyd perfformiad gwell ar dargedau ar gyfer cwblhau gwaith cyfalaf yn brydlon ar gyfer gosod ceginau newydd, gosod synwryddion mwg, a gosod ystafelloedd ymolchi newydd.



Rhagwelwyd y byddai'r gwaith o osod systemau gwresogi newydd yn ardal Treuddyn wedi dechrau yn ystod y trydydd chwarter. Fodd bynnag, oherwydd oedi wrth osod y seilwaith nwy, nid oedd yn bosibl gosod y systemau gwresogi fel y bwriadwyd a bydd y gwaith yn cael ei amserlennu ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.



Byw'n dda Cynnydd | Canlyniad

Da Uchel

Byw'n Annibynnol Cynnydd : Da Canlyniad : Uchel

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn sicrhau bod y ddarpariaeth cartrefi gofal yn Sir y Fflint yn galluogi pobl i fyw'n dda a chael ansawdd bywyd da drwy'r canlynol:

- Cyflawni camau gweithredu allweddol yr Awdurdod Lleol o'r cynllun a ddatblygwyd mewn ymateb i adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar y ddarpariaeth cartrefi gofal gan gynnwys:
- Monitro adroddiadau arolygu cartrefi gofal
- Gwerthuso effaith y prosiect peilot a gyflawnir gydag Age Concern 'Listening Voices'
- Gwella ansawdd gofal drwy weithredu cytundebau cyn lleoli ar gyfer yr holl gartrefi gofal



Beth wnaethom ni

✓ Darparwyd 5 menter drwy'r Rhaglen Ymwybyddiaeth o Dementia. Cwblhawyd yr holl hyfforddiant a sesiynau dilynol mewn Cylchoedd Dawnsio a Garddio â Dementia, a sefydlwyd 6 caffï cof yn yr Wyddgrug, Treffynnon, Mostyn, y Fflint, Bwcle a Sealand. Mae effaith y prosiect peilot (yn cynnwys lefelau bodlonrwydd) yn cael ei gwerthuso ar y cyd â 'ffrindiau gwrando' Age Concern gyda chymorth gwirfoddolwyr presennol. Mae hyfforddiant yn parhau ac mae gwirfoddolwyr yn trefnu ymweliadau rheolaidd â chartrefi.

✓ Anfonwyd cytundeb cyn lleoli i'r holl gartrefi gofal yng Nghymru sydd â lleoliad a ariennir gan Sir y Fflint.

! Roedd sicrhau bod cartrefi gofal yn llofnodi a dychwelyd y cytundeb cyn lleoli yn her. Mae tua 80% o'r contractau wedi'u llofnodi a'u dychwelyd.

2

Helpu unigolion sy'n eiddil a/neu anabl i fod yn fwy annibynnol drwy'r canlynol:

- Parhau â'r gyfradd llwyddo ar gyfer ailalluogi
- Treialu gwasanaeth cymorth nos a'i werthuso
- Pennu llinell sylfaen ar gyfer y bobl sy'n cael cynnig cyngor a chymorth drwy'r pwynt mynediad sengl

Beth wnaethom ni



Roedd canran yr atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaeth ailalluogi lle'r oedd cymorth wedi'i gynnal neu ei leihau, neu lle nad oedd angen cymorth pellach ar ddiwedd y gwasanaeth, wedi gwella o 77.8% i 85.4%. Cwblhawyd y gwaith o bennu llinell sylfaen ar gyfer y llwybrau mynediad presennol i gael gafael ar gyngor a gwybodaeth am wasanaethau cymunedol ac mae'r manteision o ddatblygu pwynt mynediad sengl ar gyfer gweithwyr proffesiynol a dinasyddion wedi'u cydnabod. Mae'r gwasanaeth cymorth nos yn cael ei dreialu, a chynhelir adolygiad yn ystod Cyfnod 2 i geisio dangos buddion i fusnes, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd.

.....

3

Cryfhau a gwella gwasanaethau atal ac ymyrryd cynnar ar gyfer plant a theuluoedd sy'n agored i niwed drwy'r canlynol:

- Newid y trefniadau gweithredu i roi gwell cymorth ar gyfer model darparu newydd ar gyfer gwasanaethau atal ac ymyrryd cynnar
- Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael cyngor a chymorth gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n eu galluogi i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch gofal plant a chymorth i deuluoedd

Beth wnaethom ni



Ffurfiwyd strwythur gweithredu newydd ar gyfer Gwasanaethau Plant. Penodwyd i swyddi rheoli allweddol ac mae prosesau recriwtio ar waith i lenwi'r holl swyddi gwag ychwanegol. Mae'r strwythur yn ymateb i'r argymhellion allweddol a nodwyd yn Adroddiad Arolygu AGGCC. Un agwedd ar hyn yw sefydlu tîm targedu cymorth a fydd yn cyfuno ac yn cydgysylltu nifer o wasanaethau ymyrryd cynnar.



Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd bellach wedi'i gydleoli â'n timau gwaith maes Plant er mwyn datblygu a chryfhau'r cyfleoedd i ddarparu cyngor a gwybodaeth amserol i blant a theuluoedd

Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Cymunedol Integredig

Cynnydd : **Da** Canlyniad : **Uchel**

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn parhau i integreiddio timau gofal iechyd a chymdeithasol yn y gymuned i ddarparu gwasanaeth cyson rhwng ardaloedd drwy'r canlynol:

- Parhau i gefnogi pobl yn effeithiol drwy ddefnyddio 'gwelyau cam i fyny a cham i lawr' lle mae Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol yn gallu cydweithio i osgoi derbyn pobl i'r ysbyty ac oedi cyn eu rhyddhau.
- Cynyddu nifer y cartrefi gofal yn Sir y Fflint sy'n ymuno â'r rhaglen 'Chwe Cham at Lwyddiant' sy'n helpu i ddarparu gofal o ansawdd uchel i bobl ar ddiwedd eu hoes.
- Adolygu a chytuno ar drefniadau ariannu ar gyfer pobl mewn gofal preswyl drwy'r rhaglen Gofal Iechyd Parhaus.

Beth wnaethom ni



Roedd prosiectau wedi parhau i redeg yn dda a defnyddiwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mis lonawr – Mawrth i sicrhau bod modd ateb y galw, er enghraifft, mewn perthynas â defnydd ychwanegol o 'Welyau Cam i Fyny a Cham i Lawr'. Y targed a osodwyd oedd 90, a chyrraeddwyd 147. Mae 22 o gartrefi gofal, gan gynnwys 2 gyfleuster gofal ychwanegol, wedi cwblhau'r "Rhadlen Chwe Cham at Lwyddiant"*.

*Nod y rhaglen yw gwella gofal diwedd oes ar gyfer yr holl breswylwyr mewn Cartrefi Gofal yn Sir y Fflint a meithrin hyder y gweithlu a'u dealltwriaeth o ofal ar ddiwedd oes, a sicrhau bod preswylwyr yn cael dewis a rheolaeth dros eu cynlluniau gofal diwedd oes. Mae'r rhaglen hefyd yn ceisio lleihau'r nifer sy'n cael eu derbyn yn amhriodol i'r ysbyty a lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal ar gyfer y preswylwyr hynny sydd yng nghyfnod terfynol eu gofal lliniarol. Caiff y rhaglen ei chynnal ar y cyd â Thîm Hwyluso Gofal Diwedd Oes Macmillan ym Mwrdd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).



Rydym yn aros am ymateb gan BIPBC ynghylch ad-drefnu gwasanaethau cymunedol. Mae BIPBC yn ystyried safle yng Nghei Connah, ond ni lwyddwyd i gydleoli gwasanaethau hyd yn hyn. Mae negodiadau'n parhau ac mae'r safle a nodwyd yn parhau'n opsiwn.

Cyswllt i adroddiad manwl yr is-flaenoriaeth **Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Cymunedol Integredig**.

2

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi ceisio sicrhau bod gwasanaethau effeithiol ar waith i gefnogi gofalwyr o fewn y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol integredig drwy'r canlynol:

- Adolygu'r Strategaeth i Ofalwyr er mwyn ailddiffinio'r blaenoriaethau ar gyfer y 5 mlynedd nesaf
- Cytuno ar gynlluniau i gefnogi gofalwyr a'u rhoi ar waith
- Sefydlu prosiect Parch, Empathi ac Urddas Dementia ym meddygfeydd meddygon teulu i gynig cyngor a gwybodaeth i ofalwyr.

Beth wnaethom ni



Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori gyda sefydliadau gwirfoddol rhwng Mawrth a Gorffennaf 2015. Trefnwyd i ymgynghori'n ehangach â holl ofalwyr Sir y Fflint ym Medi 2015 a hysbyswyd darparwyr am yr angen i orffen contractau a datblygu contractau newydd o Ebrill 2016. Anfonwyd manyleb tendr ddrafft at randdeiliaid gan ofyn am sylwadau. Bydd contractau newydd ar waith erbyn Medi 2016.



Roedd canran y rheini sydd wedi'u nodi fel gofalwyr i oedolion sy'n ddefnyddwyr gwasanaethau a gafodd eu hasesu neu eu hailasesu drwy eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn, ac a gafodd wasanaeth, wedi gwaethygu o 92% yn 2014/15 i 88% yn 2015/16.

3

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi ceisio dylanwadu ar y defnydd o gyllid Gofal Canolraddol er mwyn helpu i ryddhau cleifion yn effeithiol o'r ysbyty a sicrhau pontio rhwyddach rhwng gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol drwy'r canlynol:

- Lleihau cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol
- Sicrhau ymrwymiad gan BIPBC i barhau i ariannu'r ddarpariaeth bresennol

Beth wnaethom ni



Roedd y gyllideb ar gyfer arian Gofal Canolraddol yn gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.



Mae trefniadau ar waith i bennu dyraniad ariannol ar gyfer 2016/17 er mwyn parhau i gynnal gwasanaethau gofal canolraddol effeithiol gan gynnwys darpariaeth o ansawdd uchel mewn cartrefi gofal. Y targed ar gyfer oedi wrth drosglwyddo gofal oedd cyfradd o 2.00 am bob 1,000 o'r boblogaeth dros 75 oed. Fodd bynnag, roedd y perfformiad wedi gostwng o 2.05 yn 2014/15 i 3.39 yn 2015/16. Er nad oeddem wedi cyrraedd y targed, ymgymerwyd â gwaith sylweddol i leihau oedi. Mae ein Gwasanaethau Ardal Leol wedi gweithio'n rhagweithiol iawn gyda'r ysbytai i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n amserol ac i leihau oedi. Roedd nifer sylweddol o'r achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal a gafwyd y flwyddyn hon yn ganlyniad i gynnydd yn nifer yr oedolion sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth.

Diogelu Pobl

Cynnydd : **Da** Canlyniad : **Uchel**

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn:

- Creu uned ddiogelu sengl i reoli'r prosesau amddiffyn ar gyfer oedolion, pobl ifanc a phlant.
- Paratoi ar gyfer y gofynion newydd ac ychwanegol am ddiogelu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Cryfhau trefniadau o fewn holl bortffolios y Cyngor er mwyn pennu cyfrifoldebau clir dros ymdrin â diogelu drwy'r canlynol:
 - Rheoli'r risgiau a bennwyd drwy atgyfeiriadau ar gyfer amddiffyn oedolion.
 - Sefydlu panel Fframwaith Cam-fanteisio Rhywiol Sir y Fflint i reoli'r risgiau o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn y Sir.
 - Dilyn amserlenni ar gyfer cynadleddau amddiffyn plant.
 - Cwblhau adolygiadau amddiffyn plant yn brydlon.

Beth wnaethom ni

✓ Mae Uned Ddiogelu Sengl ar waith bellach sy'n gofalu am brosesau a swyddogaethau diogelu plant ac oedolion. Mae'r uned wedi'i lleoli yn y Fflint ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i benodi Rheolwr Uned Ddiogelu penodedig. O'r risgiau hynny a bennwyd drwy atgyfeiriadau amddiffyn oedolion, roedd 100% wedi'u rheoli o'i gymharu â 99% yn y flwyddyn flaenorol, ac roedd 98.6% o adolygiadau amddiffyn plant wedi'u cwblhau o'i gymharu â tharged o 98%. Sefydlwyd Fframwaith Camfanteisio Rhywiol Sir y Fflint ac mae panel yn cwrdd yn fisol i drafod cynnydd ar yr atgyfeiriadau.

! Roedd canran y cynadleddau amddiffyn plant cychwynol a gynhaliwyd o fewn y cyfnod gofynnol wedi gostwng o 91.2% yn 2014/15 i 80% yn 2015/16. Y rheswm am y gostyngiad oedd bod y cynnydd yng nghyfradd yr atgyfeiriadau amddiffyn plant i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r cynnydd yn nifer y ceisiadau am gynnal cynhadledd ar ôl hynny, wedi effeithio ar gapasiti cadeiryddion cynadleddau i ddarparu'r holl gynadleddau o fewn y cyfnodau gofynnol. Roedd yr holl gynadleddau wedi'u galw cyn gynted â phosibl ac wedi cael blaenoriaeth er budd y plant cysylltiedig.

Cyswllt i adroddiad manwl yr is-flaenoriaeth **Diogelu Pobl**.

Yr Economi a Menter



Cynnydd
Da

Canlyniad
Uchel

Tyfu ac adfywio'r sector busnes Cynnydd : Da Canlyniad : Uchel

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn hyrwyddo Sir y Fflint fel canolfan gydnabyddedig ar gyfer ynni ac uwch weithgynhyrchu drwy'r canlynol:

- Troi ymholiadau'n fuddsoddi yn Sir y Fflint

Beth wnaethom ni



Yn gyffredinol yn 2015/16 crëwyd 2,139 o swyddi, ac 863 o'r swyddi hyn yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy (AFGD). Cyfanswm y swyddi a grëwyd yn AFGD yw 6,569 o'i gymharu â tharged o 5,000 ar gyfer y cyfnod 2012 – 2017. Hefyd mae cyfran yr ymholiadau busnes a drowyd yn fuddsoddi wedi aros yn uchel drwy gydol y flwyddyn ar 74.1% o'i gymharu â tharged o 63%.

2

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn cefnogi twf y busnesau presennol yn Sir y Fflint, er mwyn cael y cyfleoedd a buddsoddi mwyaf posibl drwy'r canlynol:

- Creu a diogelu swyddi yn Sir y Fflint.
- Creu swyddi yn Sir y Fflint drwy ein rhaglenni cyfalaf graddfa fawr (SATC a SHARP)

Beth wnaethom ni



Rydym wedi helpu busnesau lleol i ehangu. Cynhaliwyd digwyddiadau llwyddiannus y flwyddyn hon ar y cyd â phartneriaid cyhoeddus a phreifat. Yn ystod 2015-16 roeddem wedi darparu 37 o ddigwyddiadau i hybu twf economaidd lle roedd 5,782 o gynrychiolwyr o ysgolion, colegau a diwydiant preifat yn bresennol. Roedd 917 o swyddi newydd wedi'u creu a'u cofnodi yn Sir y Fflint, 395 o'r rhain yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy. Diogelwyd 1,500 o swyddi yn Airbus.



Hefyd crëwyd cyfanswm o 43 o gyfleoedd swyddi mewn rhaglenni cyfalaf ar raddfa fawr o'i gymharu â tharged o 36.

3

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn gwella'r seilwaith band eang lleol ar gyfer twf economaidd drwy'r canlynol:

- Cyflwyno band eang cyflym iawn ledled Sir y Fflint yn unol â rhaglen waith Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015

Beth wnaethom ni



Mae LIC wedi rhoi gwybod bod 31,897 o adeiladau o fewn ardal ymyrraeth Superfast Cymru ledled Sir y Fflint.



Roedd 22,632 neu 71% o'r adeiladau yn ardal ymyrraeth Superfast Cymru wedi'u cysylltu â band eang cyflym iawn a'r cysylltiad wedi'i wirio.

Cyswllt i adroddiad manwl yr is-flaenoriaeth **Tyfu ac adfywio'r sector busnes.**

Adfywio Trefol a Gwledig

Cynnydd : **Da** Canlyniad : **Uchel**

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn darparu rhaglen adfywio integredig ar gyfer Glannau Dyfrdwy drwy'r canlynol:

- Cyflawni'r camau gweithredu allweddol yn y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, gan gynnwys:
 - Ailddatblygu safleoedd ac eiddo gwag
 - Darparu cymorth grant i fusnesau'r stryd fawr
 - Darparu sgiliau a chyfluoedd hyfforddi
 - Datblygu strategaeth adfywio gyffredinol ar gyfer Glannau Dyfrdwy.

Beth wnaethom ni



Mae rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid LIC bellach yn ei hail flwyddyn. Mae'r holl brosiectau'n mynd yn eu blaen a rhagwelir y bydd y rhaglen yn tynnu'r holl gyllid i lawr ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae'r prosiectau'n cynnwys: Grantiau ar gyfer ffryntiau siopau a grantiau i droi lleoedd uwchben siopau'n llety; Gwelliannau amgylcheddol; Gwella effeithlonrwydd ynni mewn tai; a Chynllun atgyweirio grwpiau o dai i wella'r stoc breifat. Mae'r Cyngor wedi sicrhau £6.024 miliwn o gyllid LIC ar gyfer Glannau Dyfrdwy drwy'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid ar gyfer 2014 – 2017.



Mae cyn safle'r hufenfa yng Nghei Connah a chyn swyddfeydd y Cyngor wedi'u dymchwel yn barod ar gyfer datblygu yn y dyfodol. Mae'r broses o gaffael dau safle diffaith i'w hailddatblygu wedi dechrau hefyd. Mae tri busnes wedi elwa o gynllun Byw Uwchben Siopau Glannau Dyfrdwy. Mae 17 o fusnesau wedi gwneud cais i gynllun grant Ffryntiau Siopau Glannau Dyfrdwy ond nid ydynt wedi'u cymeradwyo eto. Mae 5 busnes wedi cael caniatâd cynllunio ac mae'r broses caffael ar gyfer y gwaith wedi dechrau ac wedi'i hamserlennu i'w chwblhau erbyn diwedd Mehefin. Mae 5 busnes ychwanegol wedi cyflwyno ceisiadau cynllunio, ac roedd 7 busnes yn eu paratoi.

Cyswllt i adroddiad manwl yr is-flaenoriaeth **Adfywio Trefol a Gwledig**.

2

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn datblygu ac yn gweithredu cynlluniau hirdymor ar gyfer adfywio Canolau Tref drwy'r canlynol:

- Cyflawni camau gweithredu allweddol yn y cynlluniau Canolau Tref drwy gwblhau'r prosiectau ar gyfer gwella'r strydun
- Symud ymlaen â rhaglen adfywio'r Fflint drwy'r canlynol:
 - Cwblhau'r gwaith o ddymchwel fflatiau deulawr.
 - Penodi contractwr arweiniol ar gyfer gwaith ailadeiladu a chwblhau'r gwelliannau yn sgwâr Eglwys y Santes Fair.
- Monitro tueddiadau o ran cyfran y lloriau gwaelod mewn eiddo masnachol sy'n wag.

Beth wnaethom ni



Mae'r rhaglen o brosiectau i wella'r amgylchedd ar draws y trefi wedi'i chwblhau gan mwyaf, gyda chyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a LIC wedi dod i ben ym mis Mehefin 2015. Yn y Fflint, roedd y rhaglen adfywio yn seiliedig ar ailadeiladu'r fflatiau deulawr, ac mae'n cael ei chyflawni yn unol â'r cynllun.



Mae tueddiadau o ran cyfran y lloriau gwaelod mewn eiddo masnachol sy'n wag wedi amrywio yn ystod y flwyddyn. Mae cyfran yr eiddo gwag wedi gostwng mewn pedair ardal, sef Cei Connah, y Fflint, Treffynnon a Shotton, ac wedi codi ym Mwcle, yr Wyddgrug a Queensferry.

3

Cynyddu'r buddion economaidd i Sir y Fflint oddi wrth ymwelwyr â'r Sir drwy'r canlynol:

- Datblygu offer hysbysebu a chyfathrebu electronig newydd e.e. gwefan.
- Defnyddio dulliau amgen o ddsbarthu deunyddiau hysbysebu.
- Monitro gwerth a maint y gwariant gan ymwelwyr yn Sir y Fflint.

Beth wnaethom ni



Lansiwyd gwefan Archwilio Sir y Fflint a'i hyrwyddo ledled Gogledd Cymru ac mewn siroedd cyfagos. Gweithredwyd Pwyntiau Gwybodaeth i Ymwelwyr a gosodwyd pwynt gwybodaeth newydd yn Dangerpoint yn Nhalacre. Mae opsiynau hunanwasanaeth digidol bellach ar gael i bobl leol ac ymwelwyr drwy wefannau cyfryngau cymdeithasol. Cododd nifer yr ymwelwyr o 6.8% o'i gymharu â data 2013 i 3.38 miliwn o ymwelwyr. Mae effaith economaidd twristiaeth yn Sir y Fflint wedi cynyddu 2.5% o 2013 i £220.92 miliwn.

Sgiliau a Dysgu



Cynnydd | Canlyniad
Da | Uchel

Addysg Fodern ac Uchel ei Pherfformiad

Cynnydd : **Da** Canlyniad : **Uchel**

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn gwneud gwahaniaeth drwy ein Strategaeth Moderneiddio a Gwella Addysg ac Ieuenctid drwy godi safonau yn y ffyrdd canlynol: cydweithio'n effeithiol â'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol; lleihau effaith tlodi ac anfantais; gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael y System Cyfiawnder Ieuenctid; a datblygu a gweithredu cynllun ar gyfer y cyfnod nesaf o foderneiddio ysgolion, gan barhau i weithredu rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band A) drwy'r canlynol:

- Gwella canlyniadau mewn Mathemateg, Cymraeg/Saesneg Iaith Gyntaf a Dangosyddion Pwnc Craidd yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Gwella canlyniadau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn cynnwys Trothwy Cynwysedig Lefel 2, y Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio a'r Trothwy A*-A.
- Codi'r safonau a gyrhaeddir gan ddysgwyr sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.
- Gwella nifer yr oriau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth sydd ar gael i bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.
- Cwblhau cerrig milltir allweddol ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r rhaglen Moderneiddio Ysgolion

Beth wnaethom ni

✓ Mae'r gwelliannau yn y cyfnod cynradd yn unol â blaenoriaethau lleol a'r strategaeth. Mae angen cryfhau gwydnwch o ran arweinyddiaeth a chanlyniadau i ddysgwyr yn y cyfnod uwchradd rŵan.

✓ Mae'r perfformiad ar ddangosydd y Cyfnod Sylfaen a dangosydd pynciau craidd Cyfnod Allweddol 2 wedi gwella'n gyson dros y pedair blynedd diwethaf. Roedd y perfformiad ar y ddau ddangosydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru yn 2015. Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae'r perfformiad ar y dangosydd pynciau craidd wedi aros yn uwch o lawer na'r cyfartaledd yng Nghymru.


✓ Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r perfformiad ar drothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg wedi bod yn gyson uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

✓ Yn yr ysgolion cynradd, er bod perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n raddol, mae wedi bod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru am y ddwy flynedd diwethaf. Yn yr ysgolion uwchradd, fodd bynnag,

mae perfformiad y disgyblion hyn wedi parhau'n uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod.

✓ Cwblhawyd y cerrig milltir allweddol ar gyfer rhaglenni Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

! Mae'r perfformiad ar y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio wedi gwella bob blwyddyn yn y pum mlynedd diwethaf, ond yn arafach nag yng Nghymru gyfan. Yn 2015, roedd y perfformiad yn is na chyfartaledd Cymru am y tro cyntaf.



! Nid yw'r awdurdod wedi cyrraedd y naill na'r llall o'r meincnodau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 yn 2015, ar ôl cyrraedd un ohonynt yn y ddwy flynedd blaenorol a'r ddau yn 2012. Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A* neu A mewn TGAU neu gymhwyster cyfatebol wedi bod yn gyson is na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Cyswllt i adroddiad manwl yr is-flaenoriaeth **Addysg Fodern ac Uchel ei Pherfformiad**.

Prentisiaethau a Hyfforddiant

Cynnydd : **Da** Canlyniad : **Uchel**

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn cydweithio â'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i sicrhau'r nifer mwyaf posibl o brentisiaethau, hyfforddeiaethau a chyfleoedd profiad gwaith a rhoi gwybod amdanynt drwy'r Broses Ymgeisio Gyffredin drwy'r canlynol:

- Cynyddu nifer y cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaeth a geir o ganlyniad i'r contractau SATC a SHARP.
- Gwella'r sylfaen sgiliau leol er mwyn gwella cyflogadwyedd a rhagolygon cyflog drwy ennill gwell cymwysterau.
- Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cyrraedd trothwy Lefel 1.
- Sicrhau bod lefelau uchel o rai 16 mlwydd oed mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.
- Lleihau nifer y rhai 18 – 24 blwydd oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.
- Cyflwyno'r cynllun Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL) i sefydliadau/partneriaid newydd.

Beth wnaethom ni

✓ Crëwyd 12 lleoliad prentisiaeth yn ystod 2015/16 o'i gymharu â tharged o 5.6. Mae hyn yn gyfraniad cadarnhaol at gyflawni ymrwymiad yr awdurdod i greu cynifer â phosibl o leoliadau prentisiaeth.

✓ Mae nifer y rhai 18 – 24 oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith wedi gostwng o 5% yn erbyn targed o 5.1%. Ym mis Tachwedd 2014 roedd 360 o hawlwr o'i gymharu â 130 ym mis Tachwedd 2015.

✓ Cymeradwywyd rhaglen newydd TRAC gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ym mis Chwefror 2016. Penodwyd swyddogion TRAC a chynhelir cyfarfodydd amlasiantaethol ag ysgolion i bennu a dyrannu cymorth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio.

✓ Mae nifer y dysgwyr sy'n cyrraedd trothwy lefel 1 wedi codi o 94.1% i 96.2%, ond mae'n is na'r targed o 97%.



✓ Roedd CSFf wedi cynnal y lefelau ymgysylltu ar gyfer pobl ifanc 16 oed ers 2014-15 a hon oedd y lefel uchaf yng Nghymru dros ddwy flynedd yn olynol, sef 98.7%, gan ragori ar y targed o 97.9%.

Cyswllt i adroddiad manwl yr is-flaenoriaeth **Prentisiaethau a Hyfforddiant**.

Cymunedau Diogel



Cynnydd

Da

Canlyniad

Uchel

Diogelwch Cymunedol

Cynnydd : **Da**Canlyniad : **Uchel**

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn datblygu cynllun i gyflawni'r canlyniadau allweddol yng Nghynllun Diogelwch Cymunedol Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru (BCDGC) drwy'r canlynol:

- Cytuno â BCDGC ar fframwaith cyflawni.
- Mabwysiadu blaenoriaethau allweddol y Cynllun Diogelwch Cymunedol rhanbarthol gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint.

Beth wnaethom ni



Mabwysiadwyd y Cynllun Diogelwch Cymunedol lleol gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei gyfarfod yn Ionawr 2016. Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r nodau ac amcanion yn rhaglen waith ranbarthol y Bwrdd Cymunedau Diogelach Rhanbarthol. Yn ystod 2015/16 roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau ar lefel ranbarthol a lleol.

2

Cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau yng Nghynllun Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru er mwyn lleihau effaith cam-drin domestig, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio sylweddau drwy'r canlynol:

- Rhoi sylw i achosion o gam-drin domestig risg uchel sy'n cael eu hailadrodd
- Cytuno'n ffurfiol ar weithdrefn ar gyfer rhoi Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC)
- Monitro nifer yr ymgynghoriadau ffurfiol ar gyfer GGMC
- Parhau i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer 'cwblhau triniaethau' ac amseroedd aros am wasanaethau camddefnyddio sylweddau



Beth wnaethom ni



Mae canran yr achosion o gam-drin domestig risg uchel sy'n cael eu hailadrodd wedi gostwng o 23% i 20%. Mae gwaith yn mynd ymlaen ar hyn o bryd ar gyfer GGMC a fydd yn cymryd lle'r ardaloedd 'rheoli cŵn' blaenorol ond ni fydd y gwaith wedi'i gwblhau tan Hydref 2017. Ni chofnodwyd cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.



Mae'r ffigur ar gyfer cwblhau triniaethau ac amseroedd aros am wasanaethau camddefnyddio sylweddau wedi bod yn gyson drwy'r flwyddyn. Y ffigur ar gyfer y flwyddyn flaenorol oedd 80% o'i gymharu â 78.9% ar gyfer 2015/16.

3

Lleihau ofn troseddu drwy wneud y defnydd gorau o'r dechnoleg ddiweddaraf gan gynnwys teledu cylch cyfyng drwy'r canlynol:

- Datblygu model cynaliadwy newydd ar gyfer darparu teledu cylch cyfyng yn Sir y Fflint

Beth wnaethom ni



Mae'r astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chwblhau a'r adroddiad drafft wedi dod i law. Cytunwyd i bennu ystafell reoli teledu cylch cyfyng newydd cyn symud ymlaen i gyfnod 2. Bwriedir negodi cytundebau lefel gwasanaeth yn ystod 2016/17.

Tlodi



Cynnydd
Da

Canlyniad
Uchel

Cynyddu Incwm

Cynnydd : **Da** Canlyniad : **Uchel**

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn tlodi, neu mewn perygl i fynd i dlodi, i wireddu eu potensial drwy'r canlynol:

- Cynyddu nifer y sesiynau gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel sydd ar gael am ddim ar gyfer plant 2-3 blwydd oed drwy'r Rhaglen Dechrau'n Deg.
- Cynyddu nifer y plant sy'n cael gwasanaeth lechyd lefel uwch drwy'r Rhaglen Dechrau'n Deg.
- Cynyddu nifer y rhieni sy'n cymryd rhan mewn Rhaglenni Rhianta.
- Cynyddu nifer y sesiynau wedi'u strwythuro a heb eu strwythuro ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer rhieni a phlant (Dechrau'n Deg).

Beth wnaethom ni

✓ Mae nifer y sesiynau gofal plant a dderbynnir wedi codi o 40,000 i fwy na 46,000 yn ystod 2015-16 o ganlyniad i ddarparu mwy o gymorth i rieni a mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darparu gofal plant da, a'r buddion o ganlyniadau hirdymor. Roedd yr holl deuluoedd â phlant sy'n cymryd rhan yn rhaglen Dechrau'n Deg wedi cael gwasanaethau iechyd lefel uwch. Mae gwasanaethau Ymwelwyr lechyd gorfodol wedi'u gwella drwy gynnig therapi iaith a lleferydd, ac ymyriadau gan wasanaethau bydwreigiaeth a chwnsela. Er bod nifer y plant sy'n derbyn y gwasanaeth wedi gostwng o 1,515 i 1,479, rhagorwyd ar y targed o 1,407.

! Cynigir cyfle i bob rhiant gymryd rhan mewn Rhaglen Rhianta. Yn ystod 2015-16 adolygwyd y rhaglenni a'r ffyrdd o'u darparu ar sail gwybodaeth am anghenion teuluoedd gan sicrhau bod asesiadau priodol yn cael eu cynnal er mwyn cynnig y rhaglen briodol ar yr adeg briodol. Rhoddwyd rhagor o sylw i ymgysylltu, drwy ddefnyddio a datblygu cymorth anffurfiol i rieni sy'n gallu hyrwyddo egwyddorion a negeseuon y rhaglen rhianta drwy ddull strwythuredig anffurfiol. Mae nifer y lleoedd a gymerwyd mewn sesiynau



wedi'u strwythuro a heb eu strwythuro ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi gostwng o 314 i 302, ac roedd yn is na'r targed o 350.

Cyswllt i adroddiad manwl yr is-flaenoriaeth **Cynyddu Incwm**.

2

Darparu gwasanaethau cyngor a chymorth i helpu pobl i ddiogelu eu hincwm drwy'r canlynol:

- Helpu preswylwyr yn Sir y Fflint i gynyddu eu hincwm.
- Helpu preswylwyr yn Sir y Fflint i hawlio budd-daliadau ychwanegol.
- Helpu preswylwyr yn Sir y Fflint i hawlio Nawdd Cymdeithasol a Chredydau Treth y mae ganddynt hawl i'w derbyn.
- Cynorthwyo pobl yn ystod newidiadau Diwygio Lles drwy gymhwyso Polisi'r Cyngor ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn effeithiol.
- Helpu preswylwyr yn Sir y Fflint i reoli eu hymrwymadau ariannol yn well.
- Monitro cyflymder wrth brosesu hawliadau am Fudd-dal Tai: i) hawliadau newydd ii) newid mewn amgylchiadau

Beth wnaethom ni



Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau cyngor a chymorth i helpu preswylwyr i gynyddu incwm eu haelwyd drwy sicrhau'r symiau cywir o fudd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w derbyn a rheoli eu dyledion mor effeithiol â phosibl. Cyfanswm y Nawdd Cymdeithasol a Chredydau Treth a dalwyd oedd £2,120,315 o'i gymharu â'r targed o £2 miliwn. Mae nifer y preswylwyr sy'n hawlio budd-daliadau nawdd cymdeithasol ychwanegol wedi gostwng o 1,600 i 1,287, ac mae'r swm a dalwyd i helpu pobl yn ystod y newidiadau diwygio lles wedi gostwng hefyd o £259,000 i £145,347.



Mae'r cyflymder wrth brosesu hawliadau am Fudd-dal Tai wedi codi o 19.1 diwrnod i 20.34. O ganlyniad, mae arferion gweithio wedi'u hailgyfeirio a swyddogion penodedig wedi'u dyrannu i brosesu hawliadau newydd.

3

Rhoi cymorth i weithredu Credyd Cynhwysol yn Sir y Fflint drwy'r canlynol:

- Helpu hawlwr Credyd Cynhwysol sydd wedi'u hatgyfeirio i gael cymorth Cyllidebu Personol.
- Helpu hawlwr Credyd Cynhwysol i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein.
- Prosesu ymholiadau am gostau tai oddi wrth Ganolfan Gwasanaeth y Credyd Cynhwysol i'r Gwasanaeth Budd-dal Tai

Beth wnaethom ni



Mae nifer yr hawlwr a gafodd eu hatgyfeirio i gael cymorth cyllidebu personol wedi gostwng o 55 i 20. Mae'r ffigur hwn yn unol â'r niferoedd yn y Cytundeb Partneriaeth Darparu a wnaed â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae gwaith yn parhau drwy gyfathrebu â chydweithwyr a sefydliadau sy'n bartneriaid i ni i sicrhau bod hawlwr sy'n gallu elwa o'r gwasanaeth hwn yn cael eu hatgyfeirio i'w dderbynt.

Tlodi Tanwydd

Cynnydd : **Da**Canlyniad : **Uchel**

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn helpu preswylwyr i gael gafael ar gymorth ariannol i wella effeithlonrwydd thermol eu cartrefi drwy'r canlynol:

- Nifer y cartrefi preifat sy'n derbyn mesurau effeithlonrwydd ynni.
- Lleihau'r bil tanwydd blynyddol i breswylwyr.
- Lleihau allyriadau carbon blynyddol

Beth wnaethom ni

✓ Mae nifer y cartrefi preifat sy'n derbyn mesurau effeithlonrwydd ynni wedi gwella o 422 i 593, a 649 o gartrefi Cyngor o gymharu â 417 yn 2014/15.

✓ Mae cyfansymiau biliau tanwydd blynyddol hefyd wedi gwella, o £244,360 yn 2014/15 i £296,030 yn 2015/16.

✓ Mae'r gostyngiad blynyddol ar gyfer allyriadau carbon wedi gwella. Yn ystod 2015/16, gwnaethom leihau ein hallyriadau carbon o 33,623 tonnelli o gymharu â 29,429 tonnelli yn 2014/15 (wedi'i fesur ar ffurf tunelli o allyriadau carbon gydol oes).



2

Darparu mesurau arbed ynni yn nhai'r Cyngor drwy'r canlynol:

- Nifer cartrefi'r Cyngor sy'n derbyn mesurau arbed ynni.
- Lleihau'r bil tanwydd blynyddol i denantiaid yng nghartrefi'r Cyngor.

Beth wnaethom ni

✓ Mae cyfanswm y bil tanwydd blynyddol ar gyfer cartrefi'r Cyngor wedi gwella. Y targed a osodwyd oedd £100,000. Y cyfanswm a sicrhawyd oedd £107,240.

3

Datblygu dull caffael wedi'i seilio ar yr arferion gorau ar gyfer arbed ynni ac ynni adnewyddadwy ledled Cymru drwy'r canlynol:

- Creu a lansio fframwaith cenedlaethol ar gyfer deunyddiau a chyflenwyr arbed ynni

Beth wnaethom ni

! Cytunwyd â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Valueworks ar gyfres o sioeau teithiol. Nid oedd y rhain wedi'u trefnu'n brydlon. Mae'r angen yn y farchnad am y fframwaith hwn yn parhau.

Cyswllt i adroddiad manwl yr is-flaenoriaeth **Tlodi Tanwydd**.

Yr Amgylchedd Cynnydd | Canlyniad Da Uchel

Seilwaith a Gwasanaethau Trafnidiaeth

Cynnydd : **Da** Canlyniad : **Uchel**

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn defnyddio'r cyllid a oedd ar gael i hybu blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau iechyd, hamdden ac addysg drwy'r canlynol:

- Cyflawni cynlluniau a ariannwyd gan LIC/astudiaethau dichonoldeb a ariannwyd drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Leol yn 2015/16.
- Ymgynghori ar fapiau drafft y Rhwydwaith Teithio Llesol.
- Hysbysebu mapiau'r Rhwydwaith Teithio Llesol ar gyfer aneddiadau penodedig.
- Hyrwyddo a datblygu "Llwybrau Teithio Llesol" drwy weithio mewn partneriaeth

Beth wnaethom ni



Roedd cyllid grant y Gronfa Trafnidiaeth Leol wedi'i ddyrannu a'i ddefnyddio cyn diwedd Mawrth 2016. Roedd y cynllun gwaith llawn wedi'i amserlennu i'w gwblhau ym Mai 2016. Cwblhawyd y gwaith o ddylunio'r gwelliant arfaethedig ar y gyffordd rhwng Sealand Road a Seahill Road ar yr A548 yn Chwefror 2016 a dechreuodd y gwaith ar yr un diwrnod am gyfnod o bythefnos. Mae camera cyflymder wedi'i osod hefyd ar yr A541 ym Mhontblyddyn.

2

Blaenoriaethu gwaith atgyweirio a chynnal ar rwydwaith ffyrdd y Cyngor, a gweithredu rhaglenni i wella'r rhwydwaith drwy'r canlynol:

- Monitro cyflwr y seilwaith priffyrdd
- Monitro canran y trwyddedau a roddwyd ar gyfer gwaith ffyrdd er mwyn cydgysylltu a lleihau'r ymyrraeth â rhwydwaith priffyrdd Sir y Fflint

Beth wnaethom ni




Archwiliwyd ffyrdd a oedd mewn cyflwr gwael â sganiwr rhwng Hydref 2015 a Chwefror 2016. Roedd y canfyddiadau'n dangos eu bod wedi gwella ychydig ar 4.02% o'i gymharu â 4.48% yn y flwyddyn flaenorol (Sir y Fflint sy'n perfformio orau yng Nghymru o hyd).


3

Defnyddio'r cyllid sydd ar gael i hybu blaenoriaethau'r Cyngor er mwyn gwella diogelwch ffyrdd ar rwydwaith priffyrdd y Sir drwy'r canlynol:

- Darparu'r cynlluniau canlynol sydd wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru
 - Cynlluniau Diogelwch i roi sylw i dueddiadau a chrynodiadau o ran gwrthdaro ar y rhwydwaith ffyrdd drwy Raglen Cymorth Grant Llywodraeth Cymru.
 - Cynlluniau sydd wedi'u pennu'n Llwybrau Diogel mewn Cymunedau.
 - Mentrau diogelwch ffyrdd i leihau'r perygl o wrthdaro ymysg grwpiau risg uchel.

 Roedd mentrau diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer i) grwpiau risg uchel; ii) gyrwyr newydd gymhwyso; a iii) beicwyr modur i gyd yn is na'r rhifau targed y rhagwelwyd. Mae rhifau targed yn cynrychioli arian a glustnodwyd ar gyfer y nifer sy'n mynychu mentrau.

Beth wnaethom ni

 Ymgynghorwyd â Chynghorau Tref a Chymuned ar nifer o opsiynau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cludiant yn y gymuned i gymryd lle llwybrau sy'n derbyn cymhorthdal ar hyn o bryd a lleihau effaith y newidiadau i wasanaethau bysiau. Hyd yn hyn mae 15 o Gyngorau Cymuned wedi mynegi diddordeb yn y cynllun peilot. Y cam nesaf fydd cwrdd â'r cymunedau hyn yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf 2016 i wneud trefniadau partneriaeth a sefydlu'r cynlluniau peilot.

Datblygu Cynaliadwy a Rheoli'r Amgylchedd



Cynnydd : **Da** Canlyniad : **Uchel**

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn cytuno ar y weledigaeth, amcanion ac opsiynau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn darparu ar gyfer twf drwy'r canlynol:

- Cytuno â Llywodraeth Cymru ar amserlen a chytundeb cyflawni diwygiedig.
- Hysbysebu'r cynllun cyn adneuo.

Beth wnaethom ni



Ymgynghorwyd ar weledigaeth ac amcanion y Cynllun yng ngwanwyn 2016 yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Negeseuon Allweddol. O ganlyniad i'r adborth, cafwyd newidiadau bach yn unig yng ngeiriad rhai amcanion er mwyn eu hegluro. Mae'r weledigaeth a'r amcanion bellach yn rhan o'r strategaeth sy'n cael ei datblygu.

Mae opsiynau o ran twf a chynllunio gofodol wedi'u datblygu a'u trafod ag Aelodau yn y Grŵp Strategaeth Cynllunio. Cyhoeddir y rhain ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd yn hydref 2016, yn unol â'r Amserlen a Chytundeb Cyflawni diwygiedig.

Bydd y Cynllun yn barod ar gyfer llunio'r Strategaeth Graidd erbyn diwedd 2016 a bydd hon ar gael ar gyfer ymgynghori erbyn Mawrth 2017.



2

Pennu a datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr drwy'r canlynol:

- Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 4 fferm solar ar dir Cyngor Sir y Fflint.
- Creu dwy fferm solar ar dir Cyngor Sir y Fflint.
- Lleihau ein hallyriadau carbon

Beth wnaethom ni



Pennwyd nifer o safleoedd a all fod yn addas a rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn ar gyfer dwy o'r rhain a phenodi contractwyr ar eu cyfer. Mae Llywodraeth Ganolog wedi cyhoeddi y bydd yn ymgynghori ar lefel y cymorthdaliadau yn y dyfodol. Oherwydd hyn, ni ellir cwblhau achosion busnes ac mae'r holl brosiectau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi ei hadolygiad o Dariffau Cyflenwi Trydan a thystysgrifau Rhwymo i Ynni Adnewyddadwy. Ar ôl ystyried achos busnes manwl, mae'r Cabinet wedi rhoi cymeradwyaeth i symud ymlaen â'r ddau gynllun ar safleoedd tirlenwi ym Mwcle. Penodwyd contractwyr i ddatblygu'r ffermydd solar yn Brookhill ac mae'r ddau safle wedi'u hachredu ymlaen llaw gydag Ofgem.

Cyswllt i adroddiad manwl yr is-flaenoriaeth **Datblygu Cynaliadwy a Rheoli'r Amgylchedd**.

3

Lleihau'r gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a chreu mwy o gyfleoedd i gynhyrchu ynni o wastraff drwy'r canlynol:

- Gwella perfformiad ar ailgylchu.
- Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar ddatblygu ffrydiau gwastraff lleol e.e. troi gwastraff coed yn adnoddau biomas y gellir eu defnyddio i gynhyrchu ynni.
- Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer cyflwyno gorsaf trosglwyddo gwastraff ym Maes-glas

Beth wnaethom ni

✓ Drwy beidio â derbyn gwastraff masnachol, bydd llai o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. O ganlyniad i recriwtio gweithwyr ailgylchu gwastraff cartrefi ar safleoedd penodol a chyflwyno proses hollti bagiau yn yr holl ganolfannau ailgylchu, mae gwastraff wedi'i ddargyfeirio oddi wrth safleoedd tirlenwi. Dyfarnwyd contract gwaredu gwastraff i Treatment Outlet. Ers mis Hydref 2015, caiff gwastraff gweddillol ei anfon i'w drin er mwyn adennill ynni. O'r gwastraff a gasglwyd drwy gydol 2015/16, cafodd 58.5% ei ailgylchu, ei aildefnyddio neu ei gompostio, o gymharu â 58% yn 2014/15.

Cyngor Modern ac Effeithlon



Datblygu Cymunedau Cynnydd : Da Canlyniad : Canolig

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn datblygu'r sector cymunedol a chymdeithasol drwy ddatblygu a thyfu mentrau cymdeithasol yn Sir y Fflint, gan gefnogi a chreu mathau newydd o fusnesau lleol o ganlyniad drwy'r canlynol:

- Monitro nifer y mentrau cymdeithasol newydd a ddatblygwyd.
- Monitro nifer y mentrau cymdeithasol a gafodd gymorth i ffynnu

Beth wnaethom ni



Datblygwyd 5 Menter Gymdeithasol newydd ar draws Sir y Fflint drwy'r Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Ymysg y rhai a sefydlwyd y mae:

- Cambrian Aquatics
- Café Isa
- Llyfrgell Gymunedol Mancot
- Connah's Quay Nomads
- New Beginnings

Yn ystod 2015/16 rhoddwyd cymorth i 12 o fentrau cymdeithasol gan gynnwys 7 yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.



2

Hybu gwirfoddolwyr a dinasyddion gweithgar drwy'r canlynol:

- Monitro effaith y polisi gwirfoddoli lleol

Beth wnaethom ni



Roedd Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint wedi lleoli 541 o unigolion mewn lleoliadau newydd o'i gymharu â tharged o 480.

3

Sicrhau buddion cymunedol drwy ein trefniadau i gomisiynu nwyddau a gwasanaethau drwy'r canlynol:

- Monitro canran y cymalau budd cymunedol mewn contractau caffael newydd.

Beth wnaethom ni



Datblygwyd ffurflen comisiynu newydd sydd wedi'i chynnwys yn yr ymgynghoriad ar ddiweddaru'r rheolau presennol ar weithdrefnau contractio. Bydd hyn yn sicrhau bod buddion cymunedol yn cael eu hystyried ar gyfer pob contract sy'n werth mwy na £25,000.

4

Dylunio a gweithredu Modelau Cyflawni Amgen i gynnal gwasanaethau pwysig er mwyn diwallu anghenion yn y dyfodol drwy'r canlynol:

- Monitro lefel yr arbedion effeithlonrwydd a gafwyd drwy Fodelau Cyflawni Amgen.
- Monitro nifer y gwasanaethau a gynhaliwyd drwy eu darparu drwy fodelau amgen

Beth wnaethom ni



Ni osodwyd targedau ar gyfer y ddau fesur hyn. Fodd bynnag, mae cynlluniau busnes a gwblhawyd yn ystod 2015/16 yn dangos y bydd £2 miliwn wedi'i arbed erbyn 2017/18. Mae'r rhain yn symud ymlaen i'r cyfnod pontio yn awr yn barod i'w gweithredu yn Ebrill 2017.

5

Grymuso cymunedau i redeg a rheoli cyfleusterau yn eu hardal drwy Drosglwyddo Asedau Cymunedol:

- Trosglwyddo mwy o asedau cyhoeddus i'r gymuned

Beth wnaethom ni



Mae 8 Trosglwyddiad Asedau Cymunedol wedi'u cwblhau neu wedi cyrraedd y camau cyfreithiol olaf ar gyfer eu cwblhau. Mae ceisiadau eraill wedi cyrraedd gwahanol gamau yn y broses.

- Safle rhandiroedd Cei Connah
- Neuadd Bentref Gwernymynydd
- Pwll Nofio Cei Connah
- Llyfrgell Mancot
- Neuadd Bentref Trelogan
- Lle Chwarae Gwespyr
- Cofeb Ryfel Bagillt
- Canolfan Gymunedol a Llyfrgell Mynydd Isa

6

Sicrhau nad yw aelodau o'r Lluoedd Arfog na'u teuluoedd o dan anfantais wrth gael gafael ar Wasanaethau'r Cyngor drwy'r canlynol:

- Monitro cyflawniadau o dan Gynllun Gweithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog

Beth wnaethom ni



Sefydlwyd gweithgor i adolygu Cynllun Gweithredu Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae'r rhaglen waith yn canolbwyntio ar 6 ffrwd waith allweddol sydd wedi'u hamlinellu yng Nghyfamod y Cyngor. Mae mwyafrif y tasgau arfaethedig yn y ffrydiau gwaith wedi'u cwblhau e.e. sefydlu llyfrgell ar-lein o wasanaethau sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth a chefnogaeth i aelodau o'r Lluoedd Arfog ac am hyfforddi cyflogeion rheng flaen. Un o'r prif dasgau yn y cynllun gweithredu yw diffinio cymuned y Lluoedd Arfog yn Sir y Fflint ac mae'r gwaith hwn yn parhau. Mae'r gweithgor wedi rhoi nifer o brosesau ar waith i gyflawni'r cynllun, yn cynnwys cyswllt wyneb yn wyneb â defnyddwyr gwasanaethau i holi a ydyn nhw neu aelod o'u teulu'n aelod neu'n gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog. Rhagwelir y bydd y rhaglen waith hon yn parhau am ddwy flynedd.

Cyswllt i adroddiad manwl yr is-flaenoriaeth [Datblygu Cymunedau](#).

Rheoli Adnoddau'n Well

Cynnydd : **Bodddhaol** Canlyniad : **Canolig**

1

Yn ystod 2015/16 roeddem wedi dweud y byddem yn datblygu ac yn gweithredu cynllun ariannol pedair blynedd sy'n adlewyrchu'r disgwyliadau o ran ariannu, costau ac arbedion effeithlonrwydd er mwyn cyfrannu at benderfyniadau strategol drwy'r canlynol:

- Mabwysiadu cynllun ymarferol i gau'r bwlc ariannu o £50 miliwn ar gyfer 2015-2018.
- Paru ein blaenoriaethau â buddsoddiadau refeniw a chyfalaf.
- Cyrraedd ein targedau ar gyfer effeithlonrwydd.
- Cyflawni ein cynlluniau mawr ar gyfer newid sy'n moderneiddio gwasanaethau ac yn creu arbedion effeithlonrwydd

Beth wnaethom ni



Mae'r Cyngor wedi gallu gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2016/17 drwy gymhwyso ail ran y Strategaeth Ariannol Dymor Canolig a thrwy fabwysiadu ymagwedd gytbwys at risg wrth reoli pwysau ar gostau ac amrywiadau yn ystod y flwyddyn.



Ar sail yr asesiad risg a adroddwyd i'r Cyngor, mae'r ffaith na chyflawnwyd cyllideb 2016/17 yn cael ei disgrifio'n risg oren oherwydd maint yr arbedion effeithlonrwydd sydd eu hangen i gwrdd â gostyngiadau cenedlaethol mewn ariannu sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.



2

Gweithredu'r Strategaeth Pobl er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti a galluogrwydd gan y Cyngor i weithredu'n effeithiol fel sefydliad llai drwy'r canlynol:

- Monitro effaith y system arfarnu ddiwygiedig ar berfformiad.
- Monitro effaith y cynllun newydd ar gyfer Datblygu Cyflogaeth a Rheoli Talentau ar ein gallu i gadw galluogrwydd.
- Monitro effaith y Strategaeth Pobl mewn portffolios gwasanaeth.

Beth wnaethom ni



Datblygwyd Strategaeth Pobl newydd a chytunwyd arni mewn egwyddor. Mae nifer o'r gweithgareddau wedi'u cyflawni a'u sefydlu. Mae cynllun gweithredu amlinellol ar gyfer y strategaeth wedi'i ddrafftio ac mae angen gwaith ychwanegol i'w gwblhau. Mae rhai rhannau o'r strategaeth wedi'u cytuno a'u treialu e.e. y broses arfarnu newydd sy'n cynnwys asesiad ar gyfer rheoli talentau.

Cyswllt i adroddiad manwl yr is-flaenoriaeth **Rheoli Adnoddau'n Well**.

3

Rhesymoli'r defnydd o safleoedd corfforaethol gan y Cyngor drwy'r canlynol:

- Lleihau'r arwynebedd llawr a chostau meddiannu swyddfeydd.
- Cynyddu nifer/canran y cyflogeion sy'n gweithio mewn ffordd ystwyth

Beth wnaethom ni



Mae'r rhaglen rheoli asedau yng nghyswllt Neuadd y Sir yn golygu symud Cyfnodau 3 a 4 i Gyfnodau 1 a 2. Y cam cyntaf yw symud Cyfnod 4 – er mwyn darparu ar gyfer hyn mae cyflogeion wedi gorfod gweithio ar sail darpariaeth desgiau o 87%. Mae'r gwaith hwn yn mynd ymlaen yn awr a threfnwyd i symud y timau olaf yng Nghyfnod 4 erbyn diwedd Medi 2016. Ar ôl hynny bydd meddianwyr Cyfnod 3 yn symud. Erbyn Ebrill 2017 bydd hyn yn golygu gostyngiad pellach yn y ddarpariaeth desgiau o 74%..



Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio ar hyn ar nifer o lefelau, yn enwedig drwy ddymchwel swyddfeydd nad ydynt yn addas i'w diben bellach, a'r rhai diweddaraf yw Swyddfeydd Cei Connah. Canolbwyntiwyd ar Neuadd y Sir wrth resymoli'r defnydd o swyddfeydd. Fodd bynnag, cafwyd rhywfaint o oedi wrth fodloni rheoliadau tân. O ganlyniad i hyn bydd y symudiad o Gyfnod 4 i Gyfnod 1 yn cael ei ohirio tan ddechrau 2016/17

4

Sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd mwyaf posibl wrth brynu drwy ddefnyddio trefniadau caffael cydweithredol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol a thrwy wneud mwy o ddefnydd o ddulliau electronig drwy'r canlynol:

- Creu arbedion effeithlonrwydd drwy ddefnyddio trefniadau caffael cydweithredol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.
- Lleihau costau caffael drwy ddefnyddio prosesau prynu electronig o'r dechrau i'r diwedd

Beth wnaethom ni



Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ddarparu mynediad at yr offeryn Gwireddu Buddion a fydd yn caniatáu i'r Cyngor dracio arbedion effeithlonrwydd o ddulliau prynu electronig.

5

Ymestyn a gwella'r mynediad gan gwsmeriaid at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor gan ddefnyddio technoleg a Chanolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu drwy'r canlynol:

- Cynyddu nifer y gwasanaethau sydd ar gael drwy Ganolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu a nifer y cwsmeriaid sy'n eu defnyddio.
- Cynyddu'r defnydd o'n gwefan a'r adborth cadarnhaol am y wefan gan gwsmeriaid.

Beth wnaethom ni



Mae Canolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu yn parhau i hyrwyddo'r gallu i gael gafael ar wasanaethau drwy ddulliau electronig ac yn cynnig cymorth a chefnogaeth i gwsmeriaid wneud hyn drwy gyfleusterau hunanwasanaeth. Y cyfanswm a gyflawnwyd yn 2015/16 oedd 5,056 o'i gymharu â tharged o 1,250.



Cynhaliwyd adolygiad o'r Cynllun Bondiau hefyd i bennu arbedion effeithlonrwydd posibl drwy weithio ar y cyd â Chanolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu. Cytunwyd y bydd cymorth ar gyfer hawlio Budd-dal Tai a gwiriadau fforddiadwyedd yn cael eu darparu gan Ganolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu er mwyn gwella'r gallu i gael gafael ar y gwasanaeth a chreu arbedion effeithlonrwydd yn y maes gwasanaeth.

Adran 3

Cydraddoldeb

The Council takes seriously its duty to promote equality, eliminate discrimination and foster good. Mae'r Cyngor yn cymryd ei ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da trwy ei holl weithgareddau, o ddifrif. Yn ystod 2015/16 adolygodd y Cyngor ei amcanion cydraddoldeb ac mae'n diweddarau ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol yn awr. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Medi 2015/16 yn cael ei gyhoeddi cyn 31 Mawrth 2017. Bydd hwn yn nodi manylion ein cyflawniadau a chynnydd; bydd hefyd yn tynnu sylw at y meysydd hynny lle mae angen i ni wella.



Rydym yn datblygu system electronig ar gyfer asesiadau cydraddoldeb ac effaith ar y Gymraeg. Bydd hyn yn digwydd yn ddiweddarach eleni a bydd yn cyfrannu at fonitro a chofnodi asesiadau effaith yn fwy effeithiol; gan sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn systematig ac yn gadarn.



Rydym wedi rhagori ar ein targedau i gasglu data am amrywiaeth ein gweithwyr. Mae'r data hwn yn bwysig nid yn unig i gyflawni ein hymrwymiaidau cyfreithiol ond i gefnogi'r awdurdod i fonitro ei arferion cyflogaeth gan wneud yn si r eu bod yn deg a nodi meysydd ar gyfer gwelliant.



Mae cynnydd yn dal i fod yn anghyson ar draws portffolios gwasanaeth ac rydym yn gwerthfawrogi bod angen rhagor o waith i sefydlu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn llwyr o fewn proses gynllunio busnes newydd y Cyngor. Un maes allweddol o welliant yw parhau i gasglu data sylfaenol i nodi'r meysydd hynny o anghydraddoldeb sylweddol lle mae angen i ni dargedu ein hadnoddau i wella canlyniadau ar gyfer ein cwsmeriaid.

Safonau Iaith Gymraeg

Mae'r Cyngor yn credu bod parchu a diwallu anghenion iaith a dewisiadau ein cwsmeriaid yn ganolog i ofal cwsmer da ac effeithiol. Rydym yn darparu gwasanaethau i'r bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau, lle mae cael gafael ar wasanaethau yn iaith gyntaf unigolyn yn bwysig iawn. Rydym wedi cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf i ddangos sut rydym yn cyflawni'r Safonau Iaith Gymraeg newydd; mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys data y mae'n ofynnol i ni ei gyhoeddi.

Rydym wedi cyflwyno amrywiaeth o fentrau i godi gwelededd yr iaith Gymraeg a hybu ymwybyddiaeth o'r Safonau Iaith Gymraeg newydd:



Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Shwmae/Sumae, gan annog gweithwyr i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gwaith, beth bynnag fo lefel eu Cymraeg.



Rydym wedi sefydlu Rhwydwaith Iaith Gymraeg sy'n cynnwys swyddogion o ystod o wasanaethau i godi proffil yr iaith Gymraeg.



Ni allwn ddarparu gwasanaethau rhagorol yn y Gymraeg os nad oes nifer digonol o weithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg priodol ym mhob man darparu gwasanaeth ac ym mhob gweithle lle bydd cyswllt â'r cyhoedd. Un maes allweddol i'w wella yw cynyddu'r gyfradd ymateb i'r archwiliad sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr; mae tua 40% o weithwyr wedi cwblhau'r archwiliad.

Datblygu Cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cydnabod bod Cymru yn wynebu nifer o heriau yn awr ac yn y dyfodol, megis newid yn yr hinsawdd, tlodi, anghydraddoldebau iechyd a swyddi a thwf. Mae hefyd yn cydnabod yr angen i weithio gyda'n gilydd a meddwl am effeithiau tymor hir penderfyniadau er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.

✓ O fewn y Cyngor mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud yn ystod 2015/16 sydd wedi canolbwyntio ar sicrhau gwasanaethau hanfodol ar gyfer y dyfodol. Mae hyn wedi ei ddangos yn gynharach yn yr adroddiad trwy, er enghraifft:

- o Ein newid ein hunain yn y model gweithredol ac integreiddio unedau busnes.
- o Mwy o gydweithio a gwaith partneriaeth.
- o Lefelau uwch o ymgynghori â phobl leol, e.e. Sgwrs Fawr am Gyllideb.
- o Ail-lansio ein hymagwedd Trosglwyddo Asedau Cymunedol.
- o Ystyried a gweithio tuag at fodolau darparu gwasanaeth amgen.

✓ Mae ein gwaith i gynnal gwasanaethau yn parhau i mewn i 2016/17 ac yn amlwg ar draws ein Cynllun Gwella ar gyfer 2016/17 yn enwedig mewn adrannau megis 'Datblygu Cymunedau' lle rydym yn cefnogi cymunedau i fod yn fwy gwydn a hunangynhaliol.

Gweithgarwch Partneriaethau a Chydweithio

Mae gan Sir y Fflint hanes hirsefydlog a balch o weithio mewn partneriaeth. Mae'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn disgwyl i'r partneriaid yn y sector statudol a'r trydydd sector i weithio gyda'i gilydd, i weithio at flaenoriaethau a rennir a, trwy ymdrech ar y cyd, i gyflawni pethau. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint (BGC Sir y Fflint), yn ganolog o ran hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o gydweithio ac yn canolbwyntio egni, ymdrech ac adnoddau ar rai o'r materion cymdeithasol mawr heddiw.

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint ar 1 Ebrill 2016 o ganlyniad i "Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)" yn dod i rym. Mae BGC Sir y Fflint yn cynnwys uwch arweinwyr o nifer o sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol: Cyngor Sir y Fflint, BIPBC, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru (aelodau Statudol BGC), Heddlu Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint, Coleg Cambria, Prifysgol Glyndŵr, Ailsefydlu Cymunedol Cymru, Gwasanaethau Prawf Cenedlaethol Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Llywodraeth Cymru (aelodau BGC a Wahoddwyd). Gyda'i gilydd mae'r sefydliadau hyn yn gyfrifol am ddatblygu a gyrru'r Cynllun Lles i Sir y Fflint ymlaen.

Er bod y BGC yn sylweddoli bod llawer y gellid ei wneud i ychwanegu gwerth at wasanaeth cyhoeddus ac i gymunedau Sir y Fflint maent wedi nodi nifer o flaenoriaethau ar gyfer 2016/17 sy'n cefnogi saith nod "Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)". Y rhain yw;

- Cefnogi Byw'n Annibynnol
- Diamddiffynedd, Ymyrraeth ac Atal
- Ysbrydoli Cydnerthu Cymunedol
- Gwei thgarwch Corfforol ac Ymddygiad Llonydd (wedi'u cyfuno o bosibl gydag Ysbrydoli gwydnwch cymunedol wrth symud ymlaen)
- Cefnogi Teuluoedd ag Anghenion Cymhleth (Menter Teuluoedd Cythryblus)

Rheoleiddio, Archwilio ac Arolygu

Mae'r Cyngor yn cael ei reoleiddio gan nifer o sefydliadau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ar gyfer Addysg ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC).

Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad sylweddol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2015/16 o'r enw Adroddiad Gwella Blynyddol, a oedd yn tynnu ar ganfyddiadau eu Hasesiad Corfforaethol (a gynhelir unwaith bob pedair blynedd). Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud unrhyw argymhellion statudol y mae'n rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â hwy. Yn hytrach, gwnaed saith cynnig ymgynghorol ar gyfer gwella. Mewn ymateb lluniwyd cynllun gweithredu er mwyn monitro cynnydd yn rheolaidd yn ei erbyn.

Yn gyffredinol, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad:

✓ *“Er gwaethaf pwysau ariannol cynyddol, mae'r Cyngor wedi parhau i wella perfformiad yn ei feysydd â blaenoriaeth ac atgyfnerthu ei drefniadau corfforaethol.”*

Mae'r farn honno'n adlewyrchu casgliadau'r asesiad corfforaethol, sef:

✓ *“Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd anodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; er bod angen cryfhau agweddau ar ei drefniadau. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas ag ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella sy'n ymwneud â llywodraethu sy'n deillio o'n hadroddiad asesiad corfforaethol 2015.”*

✓ *“Mae'r Cyngor wedi cymryd camau sylweddol ymlaen o ran ei ddefnydd o adnoddau a nawr mae angen iddo gydlynu'r elfennau'n fwy systematig yn wyneb heriau ariannol yn y dyfodol.”*

✓ *“Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau gwella yr edrychasom arnynt, ond mae ei berfformiad yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol wedi gostwng rhywfaint.”*

✓ *“Cynyddodd cyfran y dangosyddion lle roedd perfformiad yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol o 51% yn 2013-14 i 62% yn 2014-15 ac roedd cyfran uwch o ddangosyddion cenedlaethol yn yr hanner uchaf – 60% yn 2014-15 o gymharu â 54% yn 2013-14.”*

! *“Er gwaethaf rhai cryfderau a meysydd o gynnydd, nid yw agweddau ar drefniadau'r Cyngor yn llwyr gefnogi'r broses gwneud penderfyniad a chyflawni blaenoriaethau cytunedig y Cyngor.”*

Yn ogystal, mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a Chomisiynydd y Gymraeg wedi cynnwys meysydd ar gyfer gwella/gweithredu yn eu hadroddiadau arolygu a llythyrau a roddwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain ar gael ar www.aggcc.org.uk a www.comisiynyddygyymraeg.org.

Enw'r Prosiect	Disgrifiad Byr
Adolygiad Cydnerthedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru	Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut y mae'n cyllidebu a chyflawni ar arbedion sydd eu hangen.
Archwiliad 'Cynllun Gwella Blynyddol' Swyddfa Archwilio Cymru	Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni ar amcanion gwella.
Archwiliad 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru	Adolygiad o asesiad perfformiad cyhoeddedig y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad.
AGGCC: Adolygiad o berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol 2014-15	Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ar gyfer 2014-15
Dadansoddiad pen desg Estyn	Trosolwg o faterion allweddol yn y Cyngor, a baratowyd gan Estyn.
Swyddfa Archwilio Cymru, Meincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol yn erbyn perfformiad	Adolygiad ar draws y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru, gan archwilio gwerth dangosyddion perfformiad gwasanaethau cymdeithasol presennol a'u cysylltiadau os oes rhai i gostau darparu gwasanaethau.
Swyddfa Archwilio Cymru, Asesiad Perfformiad	Asesiad o gynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella, gan gynnwys o fewn Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor 2014 (Yn cynnwys yr Adroddiad Asesiad Corfforaethol 2014), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015.
Gwaith dilynol	I geisio sicrwydd fod gan y Cyngor brosesau corfforaethol priodol ar gyfer ymateb i adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru, olrhain gweithredu argymhellion ac adrodd hyn i'r pwyllgor priodol.
Adroddiadau Cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> • Gwytnwch ariannol cynghorau yng Nghymru • Partneriaeth Diogelwch Cymunedol • Creu incwm a chodi tâl • Cyllido gwasanaethau trydydd sector gan y Cyngor

Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau fel cyflogwr o ran iechyd a diogelwch. Rydym yn cwrdd yn llawn â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a deddfwriaeth gysylltiedig arall, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol i ddiogelu iechyd a diogelwch ein gweithwyr ac eraill a allai gael eu heffeithio gan weithgareddau'r Awdurdod.

✓ Mae'r cyngor yn parhau i gynnig system gadarn ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau/digwyddiadau, ac mae'r holl ddamweiniau sy'n cael eu cofnodi o dan RIDDOR i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn dal i gael eu hymchwilio ac mae data ystadegol yn cael ei gasglu gan y tîm Iechyd a Diogelwch a'i ddarparu i bortffolios/gwasanaethau ar gyfer dadansoddiad tuedd manwl.

✓ Mae'r Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn parhau i gyfarfod yn chwarterol ac yn chwarae rhan fawr wrth nodi blaenoriaethau rheoli risg a dangos arweinyddiaeth iechyd a diogelwch. Mae pob Portffolio wedi cyflwyno adroddiadau blynyddol iechyd a diogelwch i'r grŵp, adolygu a diweddarau cynlluniau gweithredu iechyd a diogelwch wedi eu diweddarau, ystadegau damwain/ymchwilio manwl a data hawliadau am 2015/16.

✓ Mae mentrau ar gyfer 2015/16 wedi cynnwys:

- Datblygu system adrodd am ddamweiniau/digwyddiadau newydd a fydd yn darparu ffurflen electronig ac yn gydnaws â systemau TGCh newydd - i'w gyflwyno ar ddiwedd 2016.
- Datblygu a gweithredu rhaglenni e-ddysgu (asesu risg offer sgrin arddangos, hyfforddiant gadael yr adeilad pan fo tân, Cyflwyniad Iechyd a Diogelwch)
- Monitro Radon mewn Ysgolion
- Monitro Sŵn/ Dirgryniad Llaw Braich.

✓ Mae rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant iechyd a diogelwch yn parhau i fod ar gael. Mae anghenion hyfforddiant iechyd a diogelwch perthnasol yn cael eu nodi trwy arfarniadau dysgu a datblygu ac yn cael eu cyflwyno yn fewnol ac yn allanol.

! Mae'n bwysig bod gweithwyr a rheolwyr yn sicrhau bod trefniadau rheoli iechyd a diogelwch yn cael eu hadolygu a/neu eu cynnal a'u monitro drwy gyfnodau o newid. Bydd y Grŵp Llywio Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn parhau i geisio sicrwydd gan bob un o'r portffolios am y trefniadau hyn a bydd y Tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn parhau i fonitro effeithiolrwydd y trefniadau iechyd a diogelwch trwy raglen dreigl o arolygiadau/ymchwiliadau ac archwiliadau damweiniau

Atodiadau

Atodiad A – Cynllun Gwella 2015/16 Cofrestr Risg

Atodiad B – Tabl Data Mesurau Cynllun Gwella

Atodiad C – Tabl Data Dangosyddion Cenedlaethol

Atodiad D – Geirfa

Adborth a Sut i gael rhagor o wybodaeth

Mae nifer o ddogfennau cysylltiedig sy'n ategu'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn. Gellir cael y rhain drwy'r dolenni canlynol:

- [Cynllun Gwella Cyngor Sir y Fflint 2015/16](#)
- [Bwletin Perfformiad Cenedlaethol 2015/16](#)
- [Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint 2015/16](#)
- [Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2014/15](#)
- [Adroddiad Monitro'r Iaith Gymraeg 2015/16](#)

Diolch i chi am ddarllen ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol 2015/16.

Bydd crynodeb cyhoeddus o'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi cyn mis Rhagfyr a bydd ar gael ar wefan y Cyngor a drwy ein e-gylchgrawn.

Croesewir eich sylwadau a'ch awgrymiadau ynghylch sut y gallem wella cynnwys a chynllun yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal, pe hoffech wybod mwy am ein blaenoriaethau ar gyfer 2016/17 ymlaen, darllenwch ein [Cynllun Gwella 2016/17](#). Unwaith eto, croesewir eich barn ynglŷn â blaenoriaethau yn y dyfodol, cynnwys y cynllun a gosodiad.

Cysylltwch â ni ar:

Ffôn: 01352 701457

E-bost: christopher.x.phillips@flintshire.gov.uk